**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Deiniolen**

**Yr Hen Feithrinfa**
**Hafod Oleu**
**Deiniolen**
**Gwynedd**
**LL55 3LP**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Deiniolen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Deiniolen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Emma Price |
| Person â gofal | Dilwen Williams a Carys Roberts |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Amrediad oedran y plant | 2 flwydd a hanner i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 y bore i 11:05 y bore a 12:45 y prynhawn i 14:50 y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau, 9:00 y bore i 11:05 y bore ddydd Gwener yn ystod tymhorau ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r lleoliad ailgofrestru ar 6 Ebrill 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mis Mawrth 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/05/2022 |
| Mae bron bob un plentyn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau; ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r unigolyn cyfrifol roi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Darparu gwell cyfleoedd i blant ddatrys problemau yn annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon, ac yn ymdopi’n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn gwneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad yn effeithiol. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau a'r ardaloedd chwarae yn hyderus. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain, rhannu syniadau ac ateb cwestiynau syml yn ddeallus. Maent yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei pharchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, wrth i'r plant rhannu eu straeon unigol gyda’r ymarferwyr wrth gyrraedd y lleoliad. Mae’r rhan fwyaf yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif gyda’r ymarferwyr, sy’n creu sicrwydd iddynt. Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy’n eu gwneud yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, wrth iddynt ddangos eu gwaith celf i’r ymarferwyr, a'u balchder wrth i'r ymarferwyr werthfawrogi eu hymdrechion yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda’i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n llwyddiannus i ddyfalbarhau â thasgau wrth ddefnyddio periannau radio i siarad â’i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda’u cyfoedion ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda, fel cymryd eu tro. Er enghraifft, wrth i'r plant chwarae gyda swigod, maent yn hapus i gymryd eu tro i chwythu’r swigod ac maent yn dangos diddordeb brwd yn ymdrechion eu ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda wrth fynd i’r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn chwilota am drychfilod gyda sbienddrychau ac offer tyrchu. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, fel chwarae’n ddychmygol yn yr ardal chwarae rôl a pharatoi paned o de a chacen i’w ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau’n  annibynnol a dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt lenwi potiau gyda dŵr a’u cludo i’r wal ddŵr. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron bob plentyn yn awyddus i weithredu'n annibynnol, fel golchi eu dwylo a phlicio eu ffrwythau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn chwarae gyda’i gilydd yn eiddgar ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cymhwyso ystod eang o fedrau yn hyderus, sy’n effeithio’n llwyddiannus ar eu deilliannau a’u medrau gwybyddol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio’r Gymraeg yn gwbl naturiol ac maent yn mwynhau ymuno â rhigymau cyfarwydd a’u cyd-ganu, tra’n taro drymiau ac ysgwyd tambwrinau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau’n ofalus ac yn gweithredu arnynt yn frwdfrydig, fel peintio teigrod, blodau a buchod coch cwta. Maent yn cyfathrebu’n synhwyrol â’i gilydd wrth ymgymryd â chyfnodau o chwarae creadigol estynedig trwy gydweithio i greu crocodiliaid allan o does. Maent yn ymateb i drafodaethau a rhannu syniadau yn ystyrlon.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn trafod llyfrau yn aeddfed. Maent yn ymgysylltu â storïau yn llawen ac yn chwerthin gyda’i gilydd wrth fwynhau’r lluniau a digwyddiadau’r stori. Maent yn ymateb â diddordeb i gymeriadau gwahanol ac yn ystyried canlyniadau gweithredoedd yn feddylgar, fel ymateb yn frwd i helyntion pengwin ar ei wyliau.

Yn ystod eu chwarae, mae’r rhan fwyaf yn gwneud marciau’n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent. Maent yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac yn gwneud nodiadau’n ddeallus mewn llyfryn, ar ôl ateb y ffôn yn yr ardal gartref. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau llythrennedd cynnar ac yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu’n glir.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddynt fedrau rhifedd cadarn ac maent yn mwynhau arbrofi gydag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif i ddeg yn hyderus wrth ddidoli cregyn, cerrig mân a chnau castan, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o briodweddau siapiau. Yn ogystal, maent yn trafod cyfeintiau jygiau a bwcedi yn bwrpasol wrth lifo dŵr i gafnau a chreu cestyll yn y tywod.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau ar drac, cydbwyso a dringo ar gyfarpar anturus. Maent yn ymfalchïo yng nghreadigrwydd ei gilydd wrth wisgo hetiau gwahanol yn yr ardal chwarae rôl, ac mae hyn yn effeithio’n gadarn ar eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol. Maent yn defnyddio’r cyfleoedd cyfoethog sydd ar gael iddynt i wella’u medrau digidol, fel rheoli cyfeiriad ceir electronig a robotau a dilyn rhaglenni iaith a rhifedd ar lechi electronig. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo’n dda â’r dechnoleg, trwy ddefnyddio’r cyfarpar yn rheolaidd yn eu gweithgareddau dyddiol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac maent yn gyfarwydd â’r gweithdrefnau i’w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Yn ogystal, mae pob un o’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg, sy’n eu paratoi i roi triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau’n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn llofnodi’r cofnodion hyn. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac maent yn cael eu cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio’r toiled

a chyn bwyta byrbryd, ac maent yn sicrhau bod y byrddau'n  cael eu glanhau gyda hylif diheintio cyn i'r plant eistedd am fwyd. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant i fwyta ffrwythau ac yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant ac maent yn siarad gyda nhw yn annwyl ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro, ac maent yn cynnig esboniadau clir os bydd eu hymddygiad yn annerbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy chwarae wrth ochr y plant a modelu dweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod y gweithgareddau.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol os oes angen trefnu unrhyw gymorth ychwanegol.

Mae'r ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn effeithiol drwy gynnal arsylwadau ac asesiadau rheolaidd. Yn ogystal, maent yn creu llyfrau pwrpasol i rannu gyda rhieni a gofalwyr ar ddiwedd pob blwyddyn, sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a nifer o'u llwyddiannau. Maent yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth gyson am ddatblygiad eu plant trwy ddefnyddio ap diogel ar-lein i rannu ffotograffau ac arsylwadau. Yn ogystal, mae'r rhieni'n medru rhannu arsylwadau a gyrru negeseuon mewn ymateb, sy'n creu cysylltiad agos rhwng y rhieni a'r lleoliad.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae addysgu'r ymarferwyr yn llwyddiannus ac mae eu hagweddau diffuant a'u hawydd i chwarae'n fwriadus ymysg y plant yn ysgogi'r dysgu. Mae'r dulliau addysgu sbardunus yn annog y plant i gydweithredu'n gadarnhaol a datblygu ystod eang o fedrau yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol o gyflawniadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr ar gyfryngau cymdeithasol, trwy drafodaethau llafar ac mewn llyfrynnau cynnydd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau difyr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth a dealltwriaeth y plant. O ganlyniad, maent yn galluogi'r plant i fentro a datblygu medrau gwybyddol pwrpasol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i dynnu ciwboidau allan o dyrau heb achosi i'r tŵr ddymchwel ac maent yn eu herio i greu pump swigen trwy chwythu cymysgedd sebon i'r awyr.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau ac maent yn cymell y plant i arbrofi wrth chwarae. Maent yn cynnal trafodaethau ystyrlon gyda'r

plant ar sut i wella'u gwaith. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i chwistrellu paent gyda gwelltyn ar bapur du i greu darlun haniaethol ac edafu gleiniau ar gortyn yn ofalus. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd ar gael i blant ddatrys problemau yn gwbl annibynnol, heb oruchwyliaeth oedolyn.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys trafodaethau pwrpasol a pharodrwydd deallus i ddilyn awgrymiadau a diddordebau'r plant. Maent yn cyd-gynllunio'n gywrain i ymestyn dysgu'r plant trwy amrywiaeth o brofiadau ymarferol, fel creu pry copyn gyda thoes a brigau. Yn ogystal, maent yn cyfuno'r trafodaethau cyson hyn gyda'u hasesiadau rheolaidd yn drwyadl, i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Maent yn ymestyn dealltwriaeth y plant yn ystod sesiynau chwarae trwy holi'n effeithiol a herio unigolion i esbonio eu gweithredoedd yn bwyllog. Gwneir hyn wrth iddynt baratoi te parti yn yr ardal gartref i fwydo doliau yn eu cadeiriau uchel, ac wrth iddynt gymharu uchderau ei ffrindiau gyda thâp mesur.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gropian ar draws llwybr cul, dringo a llithro'n frwdfrydig ar gyfarpar anturus a rheoli eu hanadlu yn ystod sesiwn ioga. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel gludo siapiau gwahanol ac ysgeintio gliter ar gardiau, a pharatoi prydau dychmygus yn y gegin fwd.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, hanes Santes Dwynwen ac astudio mynyddoedd yr ardal, fel Yr Wyddfa. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd, a storïau diddorol o gyfandiroedd gwahanol y byd.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes unrhyw beryglon. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae'r ymarferwyr yn delio â'r rhain yn gyflym ac effeithiol, fel clirio'r offer a'u tynnu'n brydlon o gyrraedd y plant ar ôl i gwpan falu yn y tywod.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael synnwyr o berthyn trwy arddangos eu gwaith ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu ar gyfer ardaloedd dysgu pwrpasol, gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae adnoddau ac offer go iawn yn bresennol, fel cwpanau a llestri te ar draws yr ardaloedd dysgu, er mwyn hybu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Mae'r ardal chwarae tu allan wedi cael ei datblygu'n ddoeth i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd pwrpasol i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u

cwmpas. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod defnydd effeithiol o'r gegin fwd, yr ardal blannu a thyrchu, y wal ddŵr a'i phibellau amrywiol a'r gasgen ddŵr.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafell chwarae. Mae’r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae’r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau’n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau’n lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o’u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi’r plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd da ar gael i'r plant blannu blodau, arbrofi gyda pherlysiau a'u haroglu a chwarae gyda deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu yn yr ardal chwarae rôl. Yn ogystal, mae ystod dda o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol, fel llyfrau, doliau a phosteri.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae strategaethau arwain y lleoliad yn uchelgeisiol ac mae’r arweinwyr yn canolbwyntio’n fwriadus ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Mae eu gweledigaeth glir yn sicrhau bod arferion yr ymarferwyr dyfal yn hybu cydweithio cadarn, sy’n arwain at addysgu llwyddiannus a gofal bugeiliol teyrngar. O ganlyniad, mae’r holl ymarferwyr yn cymell y plant i wneud eu gorau glas yn gyson, trwy heriau difyr ac anogaeth ddeallus.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau realistig ar gyfer y dyfodol ac maent yn cefnogi’r ymarferwyr i gynnal safonau uchel. Mae eu hadnabyddiaeth o gryfderau’r lleoliad a’r materion i’w gwella yn gryf ac mae eu polisïau a’u hathroniaeth ystyrlon yn cysoni gwaith y lleoliad yn gelfydd. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu fel gwella’r adnoddau TGCh a’r ddarpariaeth yn yr ardal allanol. O ganlyniad, mae’r gweithdrefnau cyson a dibynadwy hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr arferion sefydlog, wrth i’r arweinwyr lunio ffyrdd eglur a phwrpasol ar gyfer datblygu’r lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr cymwys yn gweithio’n gydlynol fel tîm ac yn gweithredu systemau recriwtio diogel yn effeithiol. Mae’r arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr i fynychu hyfforddiant defnyddiol i wella’u hymarfer. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau’r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan yr arweinwyr drefniadau da i werthuso perfformiad ymarferwyr, ac maent yn goruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau a newidiadau penodol o fewn y terfynau amser cywir.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau’r holl randdeiliaid sy’n rhan o fywyd a gwaith y lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau defnyddiol ac yn gweithredu’n unol â’u cyngor i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando’n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu’r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau a syniadau’r plant yn well. Yn ogystal, maent yn

gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn ystyrlon, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i'w hysbysu am waith eu plant yn wythnosol.

Mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau lleol buddiol, sy'n cynnig profiadau difyr i'r plant, fel ymweld â phont y pentref a ffermydd cyfagos i wylio'r anifeiliaid. Mae'r berthynas effeithlon gyda'r ysgol leol yn paratoi'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn briodol.

Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n ddoeth a chyllido adnoddau gwerthfawr, yn unol â thargedau'r lleoliad. Mae'r cynllunio gofalus yn cyfoethogi profiadau dysgu a chwarae'r plant yn fwriadus trwy gaffael adnoddau ysgogol fel y wal ddŵr, llwybrau antur a'r gegin fwd.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2022

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 31 | Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC fod adroddiad diogelu wedi ei yrru i'r gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn pryderon. | Newydd |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15 Gorffennaf 2022